COMISIYNWYR
Elusennau
ar gyfer Lloegr a Chymru

# Y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddio

**Y Comisiwn Elusennau**
Ffôn: 0870 333 0123
Minicom: 0870 333 0125
Gwefan: http://www.charitycommission.gov.uk

COMISIYNWYR
Elusennau
ar gyfer Lloegr a Chymru

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag elusennau, cyrff mantell, cyrff Llywodraeth leol a chanol, a'n budd-ddeiliaid.

# Cyflwyniad

**Ym mis Medi 2002, cyhoeddodd Swyddfa'r *Cabinet Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus* - adolygiad o'r fframwaith gweithredu cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer elusennau a'r sector dielw ehangach.**

Esboniwn isod sut mae'r Comisiwn Elusennau yn rheoleiddio elusennau, a'r egwyddorion a ddilynwn. Ceisiwn reoleiddio er mwyn hybu cydymffurfio â'r gyfraith elusennau a galluogi elusennau i weithio'n well. Dylai ein gwaith cynnig modd i elusennau wireddu eu holl botensial a gwella eu hatebolrwydd i gyfranwyr a'r rheiny sy'n cael budd gan elusennau. O ganlyniad i hyn dylai ffydd y cyhoedd mewn elusennau gynyddu.

Fel unrhyw sefydliad blaengar, mae bob amser meysydd gwaith sydd wrthi'n cael eu datblygu a thargedau i'w cyrraedd. Ond credwn fod ein dull o weithio yn cyd-fynd â chynigion Swyddfa'r Cabinet ar gyfer rôl y Comisiwn yn y dyfodol, ac yn gam cyntaf defnyddiol yn y broses o weithredu'r argymhellion yn y ddogfen Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus. Bydd y dull hwn o weithio yn cael ei adolygu'n gyson wrth i'r argymhellion gael eu datblygu.

# Pam rheoleiddio elusennau?

**Mae elusennau yn sefydliadau rhydd ac annibynnol ac mae eu gwaith yn hanfodol i gymdeithas. Ond rhaid i ni gael rheolydd elusennau sy'n rheoleiddio ar ran y rheiny sy'n rhoi i elusennau ac yn cael budd gan elusennau, ac ar ran y gymdeithas ehangaf er mwyn:**

- sicrhau bod elusennau yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer bod yn elusen, ac mae'r gallu ganddynt i weithredu'n briodol ac o fewn y gyfraith;
- gwneud yn si_r bod elusennau yn cael eu gweithredu er budd y cyhoedd, ac nid i gynnig mantais breifat;
- sicrhau bod elusennau yn annibynnol a bod eu hymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau heb gael eu rheoli neu heb ddylanwad gormodol o'r tu allan;
- canfod a mynd i'r afael â chamreoli difrifol neu gamddefnydd bwriadol gan elusennau neu o fewn elusennau.

Dylai ein gwaith, ein partneriaethau â rheolyddion eraill, a gwaith elusennau eu hunain i reoli eu materion, olygu bod gan y cyhoedd ffydd mewn elusennau a'r gwaith a wnânt.





# Y Comisiwn Elusennau

**Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu gan y gyfraith fel y rheolydd a'r cofrestrydd ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr. Cyflawnwn y rôl hon trwy:**

- sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith elusennau, a delio â chamddefnydd ac arferion gwael;
- cynnig modd i elusennau weithio'n well o fewn fframwaith cyfreithiol, cyfrifyddol a llywodraethol effeithiol, fod yn effro i ddatblygiadau mewn cymdeithas, yr economi a'r gyfraith;
- hybu rheolaeth ac atebolrwydd cadarn.

Ein nod yw rheoleiddio elusennau yn y ffordd orau posib yng Nghymru a Lloegr, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder ymysg y cyhoedd.

Cyflawnwn ein gwaith mewn nifer o ffyrdd.

### 1. Defnyddio gwybodaeth a chyngor i ddylanwadu ar ymddygiad

Darparwn wybodaeth a chyngor ar yr hyn sy'n ofynnol yn gyfreithiol ac ar arfer dda. Ceisiwn wahaniaethu'n glir rhwng y ddau.

### Casglu gwybodaeth ar elusennau unigol ac elusennau yn gyffredinol.

Gwnawn hyn er mwyn:

- gwneud penderfyniad arbennig, fel p'un ai i gofrestru sefydliad fel elusen;
- barnu i ba raddau y mae elusen yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio;
- cyhoeddi cofrestr o elusennau a'u gweithgareddau.

## Rhoi gwybodaeth am elusennau i'r cyhoedd

Gwnawn hyn er mwyn:

- gwneud pobl yn ymwybodol o elusennau a'r hyn a wnânt, a sut y cânt eu rheoleiddio;
- cynnig modd i bobl gael gwybodaeth eu hunain am elusennau. Mae'r gofrestr elusennau ar gael ar-lein, ac mae copïau o gyfansoddiadau, adroddiadau blynyddol a chyfrifon elusennau ar gael i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt;
- tynnu sylw at arfer dda yn ogystal ag arfer ddrwg. Aseswn sut y mae elusennau'n perfformio'n gyffredinol yn erbyn gofynion mewn rhai meysydd pwysig trwy ein rhaglen o astudiaethau rheoleiddio, a thynnwn sylw at arfer dda. Mae elusennau sydd wedi heb gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol difrifol, fel cyflwyno eu hadroddiad a'u cyfrifon blynyddol, yn cael eu henwi.

## 2. Galluogi elusennau i weithio'n well

Gwnawn hyn drwy:

- ein prosesau cofrestru (a thrwy gydnabod dibenion elusennol newydd);
- y cyngor a'r arweiniad a ddarparwn yn ffurfiol i 24,000 o elusennau bob blwyddyn, yn ogystal â'r 250,000 o alwadau i'n Canolfan Gyswllt;
- sawl cant o ymweliadau ag elusennau bob blwyddyn i adolygu eu gweithgareddau, cyfansoddiadau a dulliau gweinyddu, adnabod arferion da a drwg;
- paratoi cynlluniau neu orchmynion cyfreithiol sy'n moderneiddio cyfansoddiadau elusennau presennol.

## 3. Hybu cydymffurfio â'r gyfraith

Gwnawn hyn drwy ein cyhoeddiadau a'n gwaith achos. Caiff elusennau bob cyfle rhesymol i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Disgwyliwn i gydymffurfiaeth lawn a phrydlon fod yn bwysicach yn achos elusennau mwy sydd â staff cyflogedig a mynediad i gyngor proffesiynol.



## 4. Ymyrraeth a gorfodaeth

Gwnawn hyn drwy:

- werthuso cwynion neu dystiolaeth arall o achosion posib o bryder ac, os yw hyn yn dangos bod rhywbeth wedi mynd o'i le yn ddifrifol, trwy gychwyn ymchwiliad ffurfiol. Gall yr hyn sydd wedi mynd o'i le gynnwys:
  - o camymddwyn neu gamreoli; ac
  - o unrhyw weithred arall sy'n golygu bod asedau elusennol mewn perygl o gael eu colli, eu niweidio neu eu camddefnyddio;
- gweithio mewn partneriaeth â rheolyddion eraill.

Mae camymddwyn yn cynnwys unrhyw weithred yr oedd y sawl a'i cyflawnodd yn gwybod (neu y dylai'r sawl a'i cyflawnodd fod wedi gwybod) ei fod yn droseddol, yn anghyfreithlon neu'n amhriodol.

Mae camreoli yn cynnwys unrhyw weithred a all olygu bod adnoddau elusennol sylweddol yn cael eu camddefnyddio; bod enw da elusen yn cael ei danseilio yn ddifrifol; neu fod risg i'r bobl sy'n cael budd o'r elusen.

Mae pwerau gennym ymyrryd mewn elusennau i ddiogelu asedau elusennau, a gallwn ddefnyddio'r rhain os yw ein hymchwiliad ffurfiol yn dangos bod camreoli neu gamddefnydd difrifol wedi digwydd. Ein nod yn yr achosion hyn fel arfer fydd:

- atal unrhyw gamymddwyn neu gamreoli rhag parhau neu gael ei ailadrodd, trwy ddiswyddo'r rheiny sy'n gyfrifol neu roi asedau'r elusen dan reolaeth arall os oes angen;
- sicrhau bod asedau'r elusen yn ddiogel a bydd yn cael ei gweinyddu'n briodol yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn cydweithio'n agos â rheolyddion eraill. Er nad yw'r Comisiwn yn awdurdod erlyn, gallwn gydweithio â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac awdurdodau eraill (fel Cyllid y Wlad).

# Egwyddorion

Wrth gyflawni ein gwaith, ceisiwn ddilyn saith egwyddor.

**1. Atebolrwydd**

Rydym yn:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Senedd bob blwyddyn ar ein gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
- cael ein harchwilio bob blwyddyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac yn cael ein harchwilio'n annibynnol yn achlysurol gan y Pwyllgor Seneddol ar Gyfrifon Cyhoeddus;
- cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar ein gwefan, ynghyd â'r rhesymau dros benderfyniadau pwysig;
- cyhoeddi ein Cytundeb Cyflwyno Gwasanaeth gyda'r Trysorlys yn dangos sut y byddwn yn cwrdd â'n targedau ac yn gwella ein perfformiad.

Byddwn bob amser yn:

- rhoi rhesymau am ein penderfyniadau i bobl neu elusennau sy'n cael eu heffeithio ganddynt, oni bai fod rhesymau cymhellol o gyfrinachedd ariannol neu bersonol dros beidio â gwneud hynny;
- ymgynghori cyn cyflwyno polisïau neu arferion gweithrediadol newydd o bwys.

Rydym yn atebol am ein penderfyniadau cyfreithiol trwy'r Uchel Lys, a all eu gwyrdroi. Gall ein penderfyniadau gael eu herio hefyd heb fynd i'r llys trwy ofyn am adolygiad mewnol.

Rydym yn dod o fewn cylch gorchwyl yr Ombwdsman Seneddol.

**2. Annibyniaeth**

Gweithredwn er budd y cyhoedd wrth gyflawni ein rôl annibynnol. Gweithiwn mewn partneriaeth ag elusennau, cyrff mantell, cyrff Llywodraeth leol a chanol, ac eraill yr ydym yn atebol iddynt. Er y byddwn yn derbyn ac yn ymateb i safbwyntiau'r rhain, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ein hunain heb ofn neu ffafr.

**3. Cymesuredd**

Canolbwyntiwn ein blaenoriaethau a'n hadnoddau lle y credwn y gall ein hymyrraeth fel rheolydd wneud y gwahaniaeth mwyaf i elusennau a'r bobl sy'n cael budd ganddynt. Ceisiwn sicrhau bod y camau rydym yn eu cymryd:

- yn gyfatebol â'r mater a'r risg o niwed cysylltiedig;
- yn ystyried gallu sefydliadau i gydymffurfio â'r gofynion am newid.

Ein diffiniad o niwed yw:

- effeithiau niweidiol ar y bobl neu achosion y mae'r elusen yn eu gwasanaethu;
- colli neu gamddefnyddio asedau neu adnoddau sylweddol;
- niweidio enw da cyhoeddus elusen neu elusennau yn gyffredinol;
- niweidio ffydd y cyhoedd mewn rheoleiddio elusennau.

Os teimlwn nad yw unrhyw un o'r ffactorau niwed hyn yn bresennol, rydym yn debygol o ddod i'r casgliad y gallwn ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn mewn man arall i greu mwy o fudd i'r cyhoedd, ac ni ddylwn gymryd camau rheoleiddio.

Mae'r dull hwn o weithio yn golygu ein bod yn llai tebygol fel arfer o ymdrin â materion sy'n ymwneud ag elusennau bach iawn nag elusennau mawr. Gall pob elusen, beth bynnag fo'i maint, ddefnyddio ein Canolfan Gyswllt a'n cyhoeddiadau. Mae bron pob un o'r cyhoeddiadau ar gael yn rhad ac am ddim.

**4. Tegwch**

Wrth ymarfer ein pwerau cyfreithiol, byddwn yn ceisio gweithredu mewn ffordd ddiduedd, deg, annibynnol ac onest. Byddwn yn dilyn egwyddorion cyfiawnder naturiol, ac yn gweithredu mewn ffordd gyfatebol a rhesymol..

### 5. Cysondeb

Mae hyn yn golygu:

- gwneud yn si_r bod y penderfyniadau a wnawn neu'r camau a gymerwn mewn unrhyw achos arbennig yn gywir ac yn gyson â'r gyfraith, â'n polisïau cyhoeddedig, ac â'n penderfyniadau eraill;
- gweithio gyda rheolyddion eraill er mwyn peidio â dyblygu neu wrthdaro â'u gweithrediadau, cyn belled â phosib.

### 6. Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Gwerthfawrogwn amrywiaeth. Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth yngl_n ag amrywiaeth a chydraddoldeb, a byddwn yn gweithio i hybu amrywiaeth a chydraddoldeb yn ein holl waith gydag elusennau ac o fewn y Comisiwn ei hun.

Byddwn yn cyhoeddi, ac yn diweddaru bob blwyddyn, Gynllun Cydraddoldeb Hiliol sy'n dangos sut yr awn ati i ddileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb cyfle a chysylltiadau hiliol da yn ein holl waith gydag elusennau ac o fewn y Comisiwn ei hun.

### 7. Tryloywder

Yn ein cyhoeddiadau, datganiadau ac wrth ddelio ag elusennau unigol byddwn yn:

- esbonio gofynion cyfreithiol mewn ffordd syml;
- nodi'r meini prawf a ddilynwn wrth wneud penderfyniadau. Mae'r arweiniad i'n staff ar y rhain ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan;
- esbonio'r hyn a ddisgwyliwn gan elusennau o ran arfer dda sy'n ychwanegol at rwymedigaethau cyfreithiol;
- tynnu sylw at yr hawl i apelio a ffyrdd eraill y gall pobl herio ein penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.



# Safonau Gwasanaeth

**Ein nod yw sicrhau bod ein gwasanaeth ar gael yn hwylus, a bod yn brydlon, yn gwrtais, yn wybodus ac yn adeiladol yn ein gwaith - os ydym yn cytuno i wneud yr hyn y mae'r cwsmer yn gofyn i ni wneud mewn achosion arbennig neu beidio.**

Byddwn yn cynal arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r agweddau hyn ar ein gwasanaethau yn rheolaidd a byddwn yn gweithredu ar y casgliadau. Gall yr Adolygydd Cwynion Annibynnol - sy'n debyg i'r ombwdsman - asesu cwynion am ein gwasanaeth os nad oes modd eu datrys gan ein trefn gwyno fewnol.

Byddwn yn darparu gwasanaeth da, nid yn unig i elusennau a'r rheiny sy'n eu rhedeg, ond hefyd i eraill sydd â diddordeb yn ein gwaith - y rheiny sy'n cael budd o weithgareddau elusennau, cyfranwyr a'r trethdalwr, y Llywodraeth, y rheiny sy'n comisiynu ac yn cyllido gwaith elusennau, a'r sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau sy'n cystadlu ag elusennau.

Os yw buddiannau budd-ddeiliaid yn gwrthdaro, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau cleientiaid elusennau.

# Delio â chwynion am elusennau

**Byddwn yn ystyried cwynion yn erbyn elusennau:**

- os yw pryderon yn cael eu mynegi am gamreoli difrifol, er enghraifft methu â dilyn gofynion y gyfraith elusennau;
- os oes niwed, neu berygl o niwed, ac mae defnyddio pwerau'r Comisiwn yn gyfatebol iddo; neu
- os oes tystiolaeth glir o gamddefnydd bwriadol.

**Ni fydd y Comisiwn yn ymchwilio i bob math o g_yn sy'n cynnwys elusen. Ni fyddwn yn gwneud hynny:**

- os yw'r achwynydd yn anghytuno yn unig â phenderfyniad y mae'r elusen, fel corff rhydd ac annibynnol, wedi'i gymryd o fewn y gyfraith a'r pwerau yn ei chyfansoddiad;
- i ddatrys anghytundeb mewnol yngl_n â pholisi neu strategaeth yr elusen y dylai'r rheiny sy'n ymwneud â'r anghytundeb fod yn gyfrifol am ei ddatrys eu hunain;
- ymdrin â chwynion unigol o wasanaeth gwael gan elusen lle nad oes unrhyw risg cyffredinol i'w gwasanaethau, ei chleientiaid neu ei hadnoddau;
- os yw'r cwyn yn cael ei thrin gan gorff statudol neu arolygol arall, neu'n gyfrifoldeb y corff hwnnw.

**Byddwn yn ceisio penderfynu mor gynnar â phosib a fyddwn yn gallu ymdrin â chwyn, a naill ffordd neu'r llall, a rhoi esboniad mor glir â phosib i'r achwynwyr.**

**Byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw un sydd â chwyn am elusen yn gwybod pa gorff dylai dderbyn a gweithredu ar y g_yn, boed y Comisiwn neu gorff arall.**



# Deunydd darllen pellach

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cynhyrchu ystod eang o gyhoeddiadau sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i ymddiriedolwyr elusennau a'r cyhoedd yn gyffredinol am nifer o faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith elusennau a rheoleiddio elusennau. Mae'r rhestr lawn ar ein gwefan neu yn ein cyhoeddiad CC1, ond mae'r rhestr isod yn ddetholiad o arweiniad sy'n gymwys i bob elusen a'u hymddiriedolwyr.

**CC3** Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennau
**CC8** Rheolaethau Ariannol Mewnol i Elusennau
**CC20** Elusennau a Chodi Arian
**CC21** Cofrestru fel Elusen
**CC47** Cwynion am Elusennau
**CC60** Nodweddion Elusen sy'n cael ei Rhedeg yn Dda
**CC61** Cyfrifon Elusennau: Y fframwaith

I gael copïau o'r rhain neu unrhyw gyhoeddiadau eraill gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan **www.charitycommission.gov.uk;**
- archebu yn ystod oriau swyddfa (0830-1800 yn ystod yr wythnos) trwy ffonio ni ar **0870 3330123;**
- archebu y tu allan i oriau swyddfa trwy ffonio ein llinell archebu lleisbost ar **01823 345427;**
  neu
- ysgrifennu at y Swyddog Dosbarthu yn **Blwch SP 392, Newton Aycliffe, DL5 6YG.**

# Manylion cyswllt

**Y Comisiwn Elusennau**
Ffôn: 0870 333 0123
Minicom: 0870 333 0125
Gwefan: http://www.charitycommission.gov.uk

**Llundain**
Harmsworth House
13–15 Bouverie Street
Llundain EC4Y 8DP
Ffacs: 020 7674 2300

**Lerpwl**
2ail Lawr, 20 Kings Parade
Queens Dock
Lerpwl L3 4DQ
Ffacs: 0151 703 1555

**Taunton**
Woodfield House
Tangier, Taunton
Gwlad yr Haf TA1 4BL
Ffacs: 01823 345003

**"Open Book"** wedi'i ddylunio gan
This Way Up www.thiswayupdesign.co.uk

Cyflenwyd gan Capita Business Services Ltd
xxxxxxxxxxxxxxxx

Recycled Paper

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu